CYMDEITHAS SENEDDOL Y GYMANWLAD | COMMONWEALTH PARLIAMENTARY ASSOCIATION
CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU | NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

CWP COMMONWEALTH WOMEN PARLIAMENTARIANS | CPA COMMONWEALTH PARLIAMENTARY ASSOCIATION
BRITISH ISLANDS & MEDITERRANEAN REGION

# PEDWAREDD GYNHADLEDD SENEDDWRAGEDD Y GYMANWLAD
# RHANBARTH YNYSOEDD PRYDAIN A MÔR Y CANOLDIR

**6 - 8 Ebrill 2017**
**Caerdydd, Cymru**

**"Menywod yn yr Economi"**



CYMDEITHAS SENEDDOL Y GYMANWLAD | COMMONWEALTH PARLIAMENTARY ASSOCIATION
CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU | NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

CWP COMMONWEALTH WOMEN PARLIAMENTARIANS | CPA COMMONWEALTH PARLIAMENTARY ASSOCIATION
BRITISH ISLANDS & MEDITERRANEAN REGION

## Cynnwys


1. **Gwybodaeth am BIMR CWP** ........................................ 1
2. **Trosolwg ar y gynhadledd** ........................................ 4
3. **Pwy oedd yn bresennol?**........................................ 5
4. **Y rhaglen**........................................18
5. **Adroddiadau ar y sesiynau llawn**........................................ .7

5.01. Y sesiwn lawn gyntaf ........................................ .7
Rhan un: *Menywod yn yr economi* ........................................ ... 7
Rhan dau *Addysg a hyfforddiant*........................................... 8

5.02. Yr ail sesiwn lawn ........................................ 9
Rhan un: *Rôl y Llywodraeth o ran hyrwyddo menywod yn yr economi*.
Rhan dau: *Menywod ysbrydoledig mewn busnesau lleol*........................................ 10

5.03. *Y drydedd sesiwn lawn : Menywod amrywiol yn yr economi*

6. **Adroddiadau ar y gweithdai**........................................ ... ..13
6.01. Gweithdy A: *Cefnogi busnesau i helpu menywod i gyflawni a ffynnu*
6.02. Gweithdy B: *Gwylio'r bwlch: Menywod yn y diwydiant adeiladu* ................ *14*
6.03. Gweithdy rhyngweithiol: *Adeiladu pontydd*........................................ 15

7. **Diolchiadau**........................................ .15
8. **Cyllid** ........................................ .15

## 1. Gwybodaeth am grŵp Seneddwragedd y Gymanwlad Rhanbarth Ynysoedd Prydain a Môr y Canoldir (BIMR CWP)

1.01. Mae Cymdeithas Seneddwragedd y Gymanwlad (CWP) Rhanbarth Ynysoedd Prydain a Môr y Canoldir (BIMR) yn rhan o Gymdeithas Seneddwragedd y Gymanwlad.

1.02. Cynhaliodd BIMR CWP ei chynhadledd gyntaf yng Nghaeredin yn 2014, yr ail yn Gibraltar yn 2015 a'r drydedd yn Guernsey yn 2016. Bydd y Pwyllgor Llywio yn cyfarfod yn ôl yr angen drwy gydol y flwyddyn.

1.03 Cynhaliodd BIMR CWP ei phedwaredd gynhadledd yng Nghaerdydd ym mis Ebrill 2017. Mae'r gynhadledd yn elfen allweddol o Gynllun Strategol BIMR CWP i gyflawni ei amcanion, sef:

a) Meithrin gallu menywod a gaiff eu hethol i'r senedd i fod yn fwy effeithiol;

b) Codi ymwybyddiaeth a meithrin gallu pob seneddwr a seneddwraig a'u hannog i ystyried rhywedd ym mhob agwedd ar eu gwaith - wrth ddeddfu, wrth graffu ac wrth gynrychioli eu hetholwyr;

c) Helpu seneddau i fod yn sefydliadau sy'n fwy ymwybodol o ryw;

ch) Annog mwy o fenywod i gymryd rhan yn y byd gwleidyddol ac i ymwneud â gwaith y Gymanwlad;

d) Canolbwyntio ar themâu cyfathrebu, eirioli ac ymgysylltu;

dd) Creu cysylltiadau â grwpiau a chymdeithasau eraill fel Menywod y Cenhedloedd Unedig, UNDP, CSW;

e) Ehangu gwaith CWP a dealltwriaeth o'r Gymdeithas.

## 2. Trosolwg ar y gynhadledd

2.01 Dewisodd CPA Cymru 'Menywod yn yr Economi' fel thema ar gyfer Cynhadledd BIMR CWP 2017 a hynny er mwyn datblygu materion o ddiddordeb penodol a godwyd yn yng Nghynhadledd BIMR CWP 2016 yn Guernsey ac i gyd-fynd a'r ymdrechion i gryfhau cysylltiadau economaidd o fewn y Gymanwlad yn ddiweddar.

Roedd y gynhadledd hon, felly, yn gyfle i drafod sut y gall menywod chwarae rhan lawn a chyfartal yn ein heconomïau unigol a'n heconomïau cyfunol, yn awr ac yn y dyfodol, a sut y gall y rhai sy'n datblygu polisïau gynorthwyo menywod i gyflawni eu potensial ac i ffynnu.

Nod y gynhadledd oedd **cydweithredu, herio ac ysbrydoli newid – gan nodi'r rhwystrau sy'n atal menywod rhag cyflawni eu potensial, nodi bylchau posibl mewn polisïau a strategaethau a rhannu arfer gorau.**

Yn y gynhadledd, daeth cynrychiolwyr o sectorau amrywiol, busnesau rhyngwladol, busnesau newydd arloesol, llywodraethau, y trydydd sector a'r byd addysg at ei gilydd. Drwy ddefnyddio'u

profiadau, aethant ati i archwilio sut y gall busnesau, y rhai sy'n datblygu polisïau a rhanddeiliaid ddod at ei gilydd a chymryd camau tuag at gryfhau cydraddoldeb rhwng dynion a merched er mwyn creu cymdeithasau mwy llewyrchus i bawb.

2.02 Yn y sesiynau llawn a'r gweithdai, clywyd droeon y neges fod angen y canlynol:

a) **gweithgareddau allgymorth sy'n targedu plant cynradd yn benodol** (a'u rhieni) gan roi pwyslais arbennig ar y blynyddoedd cynnar, cyn i hunaniaeth rywedd draddodiadol ddechrau ffurfio;

b) **patrymau ymddygiad mwy gweladwy** - mae angen i weithgareddau allgymorth gynnwys enghreifftiau o fenywod llwyddiannus mewn sectorau amrywiol

c) **gweithio'n hyblyg ac amrywiaeth yn y gweithle –** dylid annog y rhai sydd â llwyfan i wneud hynny, dynnu sylw at y modd y gall arferion o'r fath fod yn fanteisiol i fusnesau;

ch) **systemau i gynorthwyo** i entrepreneuriaid benywaidd, gan gynnwys hyfforddiant sgiliau a mentora;

d) **sylw cynyddol i ragfarn anymwybodol** yn y gweithle a'r broses recriwtio, a'r duedd i ailadrodd ymddygiad a mabwysiadu'r un hen agweddau;

dd) dylid sicrhau bod pob un o'r uchod yn **gynaliadwy yn y tymor hir** - nid yw ymyrryd mewn achosion unigol yn ddigon.

## 3. Yn bresennol

| | |
|---|---|
| Pwyllgor Llywio BIMR CWP | Joyce Watson AC, Cadeirydd (Cymru)<br>Dr Roberta Blackman-Woods AS (DU)<br>Mrs Norma Paris SM Aelod Gwladwriaethol (Alderney)<br>Eleni Mavrou AS (Cyprus)<br>Samantha Sacramento AS (Gibraltar)<br>Ann Corlett MHK (Ynys Manaw) |
| Guernsey | Y Dirprwy Rhian Tooley |
| Gibraltar | Ms Sabina Guillem |
| Ynys Manaw | Ms Julie Edge MHK |
| Jersey | Y Dirprwy Anne Pryke<br>Y Dirprwy Judith Martin<br>Y Dirprwy Susie Pinel<br>Mrs Lisa Hart (Ysgrifennydd y Ddirprwyaeth) |
| Malta | Yr Anrhydeddus Deborah Schembri AS<br>Ms Maria Angela Bellizzi (Ysgrifennydd y Ddirprwyaeth) |
| Gogledd Iwerddon: | Ms Nicola Crawford (Ysgrifennydd y Ddirprwyaeth) |
| Yr Alban | Gillian Martin MSP<br>Rhoda Grant MSP |
| Y Deyrnas Unedig | Y Farwnes Anita Gale<br>Y Farwnes Gloria Hooper CMG |
| Cymru | Ann Jones AC, Dirprwy Lywydd y Cynulliad<br>Jenny Rathbone AC<br>Caroline Jones AC<br>Rhianon Passmore AC;<br>Suzy Davies AC<br>Mr Al Davies |
| Ysgrifenyddiaeth BIMR | Mr Andrew Tuggey DL (Ysgrifennydd BIMR)<br>Helen Haywood<br>Anna Burt (Ysgrifennydd y Ddirprwyaeth) |
| Siaradwyr | Cerys Furlong, Prif Weithredwr Chwarae Teg<br>Natasha Davies, Arweinydd Polisi ac Ymchwil Chwarae Teg.<br>Christine Atkinson, Cydgyfarwyddwr Canolfan Entrepreneuriaeth Menywod, Prifysgol De Cymru)<br>Jane Hutt AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip, Llywodraeth Cymru<br>Sophie a Hannah Pycroft, Sylfaenwyr Spectrum Collections |

| | |
|---|---|
| | Jo Roberts, Sylfaenydd Fabulous Welshcakes<br>Helen Walbey, Cadeirydd Amrywiaeth Ffederasiwn Busnesau Bach y DU<br>Maxine Barrett, Cyfarwyddwr Gweithrediadau HOS Hire Ltd<br>Laura Toscano, Arweinydd Adnoddau Dynol GE UK<br>Gemma Littlejohns, Cyd-gyflogwr Chwarae Teg<br>Donna Griffiths, Rheolwr Partneriaeth Cymru, CITB<br>Sarah Jones, Gwasanaethau Peirianneg Salix |

## 4. Rhaglen

| Dydd Iau 6 Ebrill |
|---|
| **Ymweliad â GE Aviation** |
| **Derbyniad**<br>Dan ofal y Llywydd ac Aelodau Pwyllgor Gweithredol Cangen Cymru o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad |
| **Swper Gala**<br>Dan ofal Ann Jones AC, Is-lywydd Cymru o Gangen Cymru o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad |
| Dydd Gwener 7 Ebrill |
| **Cyfarfod y Pwyllgor Llywio** - cofnodion ar wahân ar gael |
| **Anerchiad agoriadol a throsolwg ar y rhaglen**<br>Dan ofal Joyce Watson AC Cadeirydd BIMR CWP |
| **Cyfarfod Llawn 1**<br>*Cadeirydd*: Joyce Watson AC (Cymru)<br>**Rhan Un:** ***Gosod y llwyfan - menywod yn economi Cymru***<br>*Cyflwynwyr:*<br>Cerys Furlong, Prif Weithredwr Chwarae Teg<br>Natasha Davies, Arweinydd Polisi ac Ymchwil Chwarae Teg.<br>**Rhan Dau:** ***Addysg a Hyfforddiant - Datblygu arweinwyr entrepreneuraidd benywaidd y dyfodol***<br>*Cyflwynydd:*<br>Christine Atkinson, Pennaeth Canolfan Entrepreneuriaeth Menywod, Prifysgol De Cymru |
| **Cyfarfod Llawn 2**<br>*Cadeirydd*: Ann Jones AC, Dirprwy Lywydd y Cynulliad<br>**Rhan Un:** ***Rôl y Llywodraeth o ran hyrwyddo menywod yn yr economi.***<br>*Cyflwynydd: Jane Hutt AC, Arweinydd y Tŷ, Llywodraeth Cymru*<br>**Rhan Dau:** ***Menywod ysbrydoledig mewn busnesau lleol.***<br>*Cyflwynwyr:*<br>Sophie a Hannah Pycroft, Sylfaenwyr Spectrum Collections<br>Jo Roberts, Sylfaenydd Fabulous Welshcakes |
| **Cyfarfod Llawn 3**<br>*Cadeirydd*: Rhianon Passmore AC (Cymru)<br>***Menywod amrywiol yn yr economi***<br>*Cyflwynwyr:*<br>Helen Walbey, Cadeirydd Amrywiaeth Ffederasiwn Busnesau Bach y DU<br>Maxine Barrett, Cyfarwyddwr Gweithrediadau HOS Hire Ltd<br>Laura Toscano, Arweinydd Adnoddau Dynol GE UK |
| **Gweithdy A:** *" Cefnogi busnesau i helpu menywod i gyflawni a ffynnu"* |

| |
|---|
| *Hwyluswyd gan: Gemma Littlejohns, Cyd-gyflogwr Chwarae Teg* |
| **Gweithdy B: *"Gwyliwch y bwlch: menywod yn y diwydiant adeiladu"***<br>*Dan arweiniad*: Donna Griffiths, Rheolwr Partneriaeth Cymru, CITB, a phrentisiaid a menywod eraill sy'n gweithio yn y sector.<br>*Hwyluswyd gan: Suzy Davies AC* |
| **Gweithdy rhyngweithiol i bawb: *"Adeiladu pontydd"***<br>*Hwyluswyd gan: CITB ac ICE* |
| **Adroddiadau o'r gweithdai a sylwadau clo**<br>*Cadeirydd*: Joyce Watson AC, Cadeirydd BIMR CWP |
| **Cinio swyddogol**<br>Dan ofal gan Joyce Watson AC |

## 5. Adroddiad ar y Cyfarfodydd Llawn

### 5.01. Y SESIWN LAWN GYNTAF:

Cadeirydd: Joyce Watson AC (Cymru)

**Rhan Un: Gosod y llwyfan: menywod yn economi Cymru**

Siaradwyr

- Cerys Furlong, Chwarae Teg
- Natasha Davies, Chwarae Teg

Estynnodd Joyce Watson AC, Cadeirydd BIMR, groeso i'r cynrychiolwyr i bedwaredd Gynhadledd BIMR CWP. Gan gyfeirio at y cydbwysedd rhwng y rhywiau yn y Cynulliad, soniodd y Cadeirydd am y gwaith a wnaed i gyflawni hyn, ac ymdrechion y Farwnes Anita Gale yn bennaf, yn ystod ei chyfnod fel Ysgrifennydd Cyffredinol y Blaid Lafur yng Nghymru. Cyflwynodd y Cadeirydd thema'r gynhadledd, sef Menywod yn yr Economi, gan bwysleisio y dylai menywod gael eu cynrychioli ym mhob agwedd ar yr economi, nid dim ond yn y meysydd hynny y mae menywod yn gweithio ynddynt yn draddodiadol. Cyflwynodd y Cadeirydd gynrychiolwyr Chwarae Teg a diolchodd iddynt am gynorthwyo i drefnu'r gynhadledd ar fyr rybudd.

Dechreuodd Natasha Davies drwy roi darlun cyffredinol o fenywod yn economi Cymru a'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu.

Sefydlwyd Chwarae Teg bum mlynedd ar hugain yn ôl, a gweledigaeth y sefydliad yw creu Cymru lle mae menywod yn llwyddo ac yn ffynnu. Mae Chwarae Teg yn gweithio tuag at hyn drwy weithio gyda menywod, mewn gweithleoedd, gyda phobl ddylanwadol yn y maes, addysgwyr a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Dywedodd Natasha fod 73.2% o fenywod yng Nghymru yn economaidd weithgar o'i gymharu â 80.6% o ddynion. Ar ben hyn, ar gyfartaledd mae menywod yw ennill £10.57 yr awr, ac mae dynion yn ennill £12.75 yr awr a dim ond 14% o Brif Weithredwyr y wlad sy'n fenywod.

Tanlinellwyd bod stereoteipio'n ffactor pwysig sy'n atal menywod rhag gweithio mewn sectorau penodol. Mae'r stereoteipiau'n cael eu sefydlu'n aml pan fydd plant yn ifanc iawn, tua 2-3 oed fel arfer, pan fydd eu hunaniaeth rywedd yn dechrau ffurfio. Gall hyn olygu bod merched yn diystyru rhai gyrfaoedd yn gynnar iawn yn eu bywydau.

Ychwanegodd Natasha fod diffyg gofal plant a phrinder cyfleoedd i weithio oriau hyblyg yn rhwystro menywod rhag cyfrannu rhagor at yr economi. Mae hyn hefyd yn cadarnhau'r rhagdybiaeth mai gofalwyr yw menywod yn bennaf, ac mai rôl eilradd yw eu gwaith cyflogedig.

Yn olaf, mae modelau economaidd traddodiadol yn canolbwyntio ar fuddsoddi mewn sectorau twf uchel a chanran isel o fenywod sy'n gweithio yn y sectorau hyn. Canlyniad hyn yw bod cydraddoldeb rhwng y rhywiau'n aml yn cael ei ystyried yn fater mwy cymdeithasol nag economaidd.



Eglurodd Cerys Furlong sut roedd Chwarae Teg yn ceisio dod o hyd i ffyrdd o chwalu'r rhwystrau hyn.

Mae addysg gynhwysol i'r ddau ryw yn gam pwysig yn yr ymdrech i roi'r gorau i'r stereoteipio sydd i'w weld ym mhob diwydiant, nid dim ond y diwydiannau traddodiadol. Dywedodd Cerys fod y sefyllfa ym maes hyfforddi athrawon yng Nghymru wedi gwella'n arw yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae Chwarae Teg yn gweithio gyda darparwyr hyfforddiant i sicrhau gwell cydbwysedd rhwng y rhywiau a chyda chynghorwyr gyrfaoedd i sicrhau bod menywod yn cael eu defnyddio fel patrwm ymddwyn mewn sefydliadau Addysg Uwch. Mae'n hynod bwysig bod disgyblion a myfyrwyr yn gweld menywod y maent am eu hefelychu, a sylweddoli y gallant ddilyn unrhyw lwybr gyrfa.

Mae'n hanfodol buddsoddi mewn seilwaith cymdeithasol i greu gweithle modern lle gall menywod ffynnu. Byddai hyn yn cynnwys buddsoddi mewn gwasanaethau gofal plant hyblyg a phatrymau gweithio hyblyg. Dylai hyn fod yn rhan o newid ehangach yn niwylliant y gweithle, gan roi mwy o ymreolaeth i unigolion wrth iddynt gyflawni eu gwaith.

Soniodd Cerys am yr angen sylfaenol i gael gwaith boddhaol am gyflog boddhaol. Dylai mwy o gyflogwyr dalu'r isafswm cyflog a dylid eu hannog i fuddsoddi yn eu gweithlu.

Drwy ddefnyddio Cymru fel enghraifft, pwysleisiodd Cerys yr angen i wneud y gorau o bwerau datganoledig ac i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ddylanwadu ar bolisi.

**Rhan Dau: *Addysg a hyfforddiant***

Siaradwr: Christine Atkinson, Pennaeth Canolfan Entrepreneuriaeth Menywod, Prifysgol De Cymru

Cyfeiriodd Christine at Ganolfan Entrepreneuriaeth Menywod Prifysgol De Cymru fel enghraifft o astudiaeth achos o'r modd y mae'r brifysgol wedi creu cysylltiadau â phartneriaid yng Nghymru, y DU ac Ewrop i annog menywod i weithio ym maes entrepreneuriaeth. Rhoddodd Christine gefndir byr y gwaith gan ddechrau drwy sôn am Welsh Women Entrepreneurs on the Web (WWEW) yn 1999 a sefydlodd yr anghenion, y cymhellion a'r heriau gwahanol ymysg entrepreneuriaid benywaidd. Yn 2000, cyflwynodd y brifysgol Entrepreneuriaeth MSc arloesol (Entrepreneuriaid Benywaidd) a sefydlodd yr angen a'r galw am gyrsiau / cymwysterau lefel uchel yn rhannol i oresgyn rhai o'r heriau a nodwyd yn flaenorol. Yn 2008, lansiodd y brifysgol y Ganolfan Rhagoriaeth mewn Menter a'r Ganolfan Entrepreneuriaeth Menywod, i ganolbwyntio ar Ymchwil, Polisi ac Arfer mewn Entrepreneuriaeth Menywod a Rhyw. Gan weithio gyda phartneriaid yn yr UE, lansiodd y brifysgol Entrepreneuriaeth Menywod yn yr Undeb Ewropeaidd (WEEU) yn 2008.

Ers ei sefydlu, mae'r Ganolfan  Entrepreneuriaeth Menywod wedi gweithio ar nifer o brosiectau blaenllaw. Roedd y prosiect Menywod yn Ychwanegu Gwerth at yr Economi (WAVE), a gyflwynwyd mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd a BAWSO, yn canolbwyntio ar ddiffinio llwyddiant, ysgogi entrepreneuriaid benywaidd, a datblygu eu hygrededd.

Tanlinellodd Christine bwysigrwydd y Ganolfan Entrepreneuriaeth Menywod o gofio cyfranogiad cynyddol menywod mewn entrepreneuriaeth a'u cyfraniad hanfodol i'r economi. Yn 2012 roedd 48 miliwn o entrepreneuriaid benywaidd a 64 miliwn o berchnogion busnes sefydledig benywaidd yn cyflogi o leiaf un gweithiwr. Er gwaethaf hyn, nid yw menywod yn cael eu cynrychioli'n ddigonol ym myd entrepreneuriaeth ac mae'r her o sicrhau cynaliadwyedd hirdymor hir entrepreneuriaid benywaidd yn parhau. Fodd bynnag, mae ffigurau 2015 yn dangos bod y gymhareb rhwng menywod a dynion yn y byd entrepreneuraidd yn lleihau a'r bwlch rhwng y ddau ryw yn cau.

Yn y sesiwn holi ac ateb, amlygwyd yr angen i fedru gweithio oriau hyblyg ac, yn benodol, yr angen i sôn yn amlach am fanteision y trefniadau hyn. Mewn ymateb, dywedodd Christine y gallai entrepreneuriaid benywaidd gyfrannu yn y cyswllt hwn drwy fanteisio ar eu sefyllfa a hyrwyddo manteision gweithwyr benywaidd. Nododd y cyfranogwyr a'r siaradwyr hefyd ei bod yn hanfodol bwysig tynnu sylw darpar entrepreneuriaid at fenywod y gallant eu hefelychu.

## 5.02. YR AIL SESIWN LAWN:

**Rhan Un:** ***Rôl y Llywodraeth o ran hyrwyddo menywod yn yr economi***.

Siaradwr:   Jane Hutt AC – Arweinydd y Tŷ, Llywodraeth Cymru

Agorodd Jane Hutt AC y sesiwn drwy nodi sut y mae Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei hymrwymiad i hyrwyddo menywod yn yr economi.  Dywedodd wrth y cynadleddwyr bod cydraddoldeb yn rhan annatod o'r ddeddfwriaeth a sefydlodd Llywodraeth Cymru a'i fod yn dylanwadu ar bopeth y mae'n ei wneud. Gan hynny, strategaeth Llywodraeth Cymru yw sicrhau cydraddoldeb trawsbynciol drwy'r Llywodraeth gyfan. Tanlinellodd nifer o feysydd gwaith:

**Cynhwysiant ariannol** - gweithio gyda phartneriaid i'w gwneud yn haws cael credyd fforddiadwy a gwasanaethau ariannol;

**Cymorth busnes** - mynediad at wybodaeth, cyngor a chefnogaeth i sefydlu a datblygu busnesau, gan gynnwys cymorth i ddod o hyd i'r partner cyllid, y benthyciadau a'r buddsoddwyr priodol;

**Gofal plant** - darparu lleoedd gofal plant am ddim;

**Hyfforddiant** - meithrin sgiliau a magu hyder;

**Gwleidyddiaeth a gwneud penderfyniadau** - annog menywod i fod yn rhan o fywyd cyhoeddus. Addewid i sicrhau cymhareb o 50:50 erbyn 2020;

**Anghydraddoldeb mewn cyflogau** - mynd i'r afael ag achosion sylfaenol (stereoteipio ar sail rhyw, gwahanu galwedigaethol a diffyg gofal plant fforddiadwy);

**Rheolwyr benywaidd ar bob lefel** - hyfforddiant mewn arweinyddiaeth, cefnogaeth ac anogaeth un- i-un.

Pwysleisiodd y Gweinidog y manteision sydd ynghlwm wrth gael arweinwyr benywaidd i arwain newidiadau sefydliadol, i hybu arferion gweithio hyblyg, ac i hyrwyddo cydraddoldeb drwy'r gweithlu yn ogystal â bod yn bobl y gall menywod eraill yn y gymuned eu hefelychu. Mae cyfrifoldeb allweddol ar y Llywodraeth hefyd i fynd i'r afael â gwahaniaethu.

Wrth gloi, pwysleisiodd y Gweinidog faint yr her, a'r holl waith sydd i'w wneud eto i sicrhau y gall menywod gymryd rhan lawn yn yr economi; fodd bynnag, dylai cydraddoldeb fod yn flaenllaw ym mhopeth y mae'r Llywodraeth yn ei wneud.

Yn ystod y sesiwn holi ac ateb, trafodwyd rôl arweinyddiaeth yn y broses o ddileu seilos yn y llywodraeth i helpu i hybu cydraddoldeb. Er bod arweinyddiaeth gref yn hanfodol, roedd y Gweinidog yn credu bod yn rhaid ei chyplysu â dulliau cydweithredol o weithio, a dulliau sy'n galluogi eraill, gan sicrhau y buddsoddir yn y berthynas iawn.

Wrth ystyried sut y bydd y penderfyniad i adael yr UE yn effeithio ar y DU, nodwyd bod 60% o allforion Cymru yn mynd i'r UE; mae Llywodraeth Cymru, fodd bynnag, wedi bod yn trefnu teithiau masnach ar draws y byd i hyrwyddo ei sector busnes, gan dargedu marchnadoedd y Gymanwlad yn benodol.

Pwysleisiwyd bod y broses gaffael yn y sector cyhoeddus yn creu cyfleoedd i fusnesau sy'n cael eu harwain gan fenywod ac mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud rhywfaint o waith i ehangu'r cyfleoedd hyn, gan gynnwys lleihau hyd y dogfennau perthnasol, symleiddio'r iaith a ddefnyddir a darparu hyfforddiant mewn sgiliau digidol.

**Rhan Dau *Menywod ysbrydoledig mewn busnesau lleol***

Siaradwyr

- Sophie a Hannah Pycroft, Spectrum Collections
- Jo Roberts, Fabulous Welshcakes

Yn ystod ail ran y sesiwn, clywodd y cynrychiolwyr gan dair o fenywod busnes lleol a fu'n sôn am eu profiadau o sefydlu a datblygu eu busnesau yng Nghymru.



Penderfynodd Sophie a Hannah Pycroft, sy'n ddwy chwaer, adael gyrfaoedd llwyddiannus yn y cyfryngau i lansio Spectrum Collections, busnes sy'n gwerthu brwsys a bagiau colur ac ategolion. Maent wedi sefydlu sylfaen cwsmeriaid ledled y byd ac erbyn y drydedd flwyddyn o fasnachu, roedd eu trosiant blynyddol cymaint â £2.5m. Roeddent yn pwysleisio pwysigrwydd creu brand cryf, sy'n allweddol i lwyddiant eu busnes, a'r angen i fentro. Roeddent wedi meithrin sgiliau drwy eu haddysg a'u gyrfaoedd blaenorol, ac wedi datblygu dealltwriaeth o fyd busnes wrth fynd rhagddynt. Mae Sophie a Hannah wedi cael cefnogaeth sylweddol gan fentrau Llywodraeth Cymru i gefnogi busnesau bach ac maent yn gwneud cais i ymuno â'r rhaglen twf cyflym a fydd yn eu galluogi i dalu am gyfreithwyr ym maes eiddo deallusol i helpu i ddiogelu eu brand ac i sicrhau bod eu busnes yn cyflawni ei botensial llawn.

Jo Roberts yw perchennog cwmni Fabulous Welshcakes, sef busnes a greodd drwy droi syniad da yn gyfle masnachol. Mae ganddi staff o bymtheg, ac mae wedi llwyddo i gadw staff drwy sefydlu patrymau gweithio hyblyg a drwy sicrhau bod y rhan fwyaf o'r gwaith cynhyrchu'n digwydd yn ystod oriau ysgol. Ar hyn o bryd, mae gan y busnes drosiant blynyddol o £300,000 ac mae'n ehangu drwy agor siop newydd mewn ardal y tu allan i Gaerdydd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r siaradwyr am eu storïau ysbrydoledig gan eu llongyfarch ar eu llwyddiant. Nododd fod angen menywod fel Hannah, Sophie a Jo i ysgogi menywod eraill i ddechrau busnesau newydd ac i ddatblygu busnesau presennol.

### 5.03. **Y DRYDEDD SESIWN LAWN :** *Menywod amrywiol yn yr economi*

Siaradwyr

- Helen Walbey, Cadeirydd Amrywiaeth Ffederasiwn Busnesau Bach y DU
- Maxine Barrett, Cyfarwyddwr Gweithrediadau HOS Hire Ltd
- Laura Toscano, Arweinydd Adnoddau Dynol GE UK

Clywodd y cynrychiolydd gan Helen Walbey, Cadeirydd Amrywiaeth Ffederasiwn Busnesau Bach y DU (FSB). Sefydliad dielw yw'r FSB ac nid yw'n gysylltiedig ag unrhyw blaid wleidyddol. Fe'i sefydlwyd dros ddeugain mlynedd yn ôl i helpu ei aelodau i lwyddo mewn busnes. Roedd yn cynnig cyngor, cynhyrchion ariannol a chymorth a oedd yn cynnwys amrywiaeth eang o fuddion fel treth, gwasanaethau cyfreithiol ac adnoddau dynol, grwpiau rhwydwaith lleol, gwasanaethau bancio i fusnesau a mentora.

Penodwyd Helen yn Gadeirydd Amrywiaeth yn 2016, ar ôl rhedeg ei busnes ei hun, Recycle Scooters, yn Aberdâr ers 2004. Ar ôl dechrau gwerthu darnau ar-lein ar gyfer beiciau fel ffordd o gynhyrchu incwm tra oedd ei gŵr yn gwella ar ôl damwain ddifrifol yn y gwaith, roedd cwmni Helen yn awr yn masnachu'n rhyngwladol ac yn cyflogi staff lleol. Ysgogwyd diddordeb Helen mewn materion amrywiaeth o'i phrofiad o fod yn fenyw sy'n berchennog busnes mewn sector sy'n cael ei reoli gan ddynion.

Dywedodd Helen fod nifer fawr o resymau dros y ffaith bod cyn lleied o fenywod yn rhedeg busnesau yn y DU, sef dim ond 22%. Amcangyfrifwyd y gellid ychwanegu £10.6 biliwn at yr economi pe bai'r menywod hynny sy'n dymuno dechrau busnes yn gwireddu eu breuddwydion. Gallai hyn arwain at newidiadau cymdeithasol mawr, gan fod menywod yn dueddol o wario'r arian y byddant yn ei ennill o'u busnesau yn eu cymunedau eu hunain - mae hyn yn newid deinamig ardal ac yn newid cymunedau er gwell. Roedd FSB wedi cynnal arolwg o'i aelodau benywaidd a daeth 1900 o ymatebion i law. Mae'r rhan fwyaf rhedeg eu busnesau o gartref ac yn gweithredu'n bennaf yn y sectorau gwasanaethau a gofalu lle'r oedd llai o gyfle i ddatblygu a gwneud elw. Roedd menywod yn tueddu i roi'r gorau i'w busnesau gan nodi rhesymau personol yn hytrach na methiant ariannol dros wneud hynny, a dywedodd y rhai a holwyd mai rheolaeth ariannol ac amharodrwydd i fentro oedd eu prif bryderon fel menywod busnes.

Pwysleisiodd Helen fod cyfle gwirioneddol i entrepreneuriaid benywaidd ddatblygu yn y sector cyhoeddus / preifat gan fod prinder amrywiaeth yn y cadwyni cyflenwi ar hyn o bryd. Roedd Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i fynd i'r afael â hyn, a hynny'n bennaf drwy leihau hyd y ffurflen ar gyfer y broses gaffael, a oedd yn cynnwys 164 tudalen gynt, gan gynhyrchu ffurflen fyrrach a haws ei defnyddio, ond gellid gwneud rhagor eto. Mae'r gallu i gael cyngor a chefnogaeth yn cael ei ystyried yn hanfodol er mwyn annog menywod i sefydlu busnesau ac roedd hyfforddiant yn allweddol; nid yn unig ar gyfer twf personol menywod ond hefyd fel cyfle gwerthfawr i rwydweithio - "ni allwch efelychu rhywbeth na allwch ei weld". Ystyriwyd ei bod yn hanfodol i fenywod gael eu gweld y llwyddo mewn sectorau amrywiol. Helen oedd yr unig ferch yn y DU a oedd yn rhedeg iard sgrap ac, ar ôl llwyddo mewn amgylchedd lle'r oedd dynion mor flaenllaw, roedd yn teimlo'n angerddol fod angen hybu amrywiaeth mewn meysydd eraill hefyd. Credai y gallai menywod lwyddo mewn unrhyw faes busnes ac roedd yn allweddol cydweithredu i gyrraedd y nod. Byddai'n mynd i ysgolion cynradd i sôn am ei busnes ac i ysbrydoli plant, ond merched ifanc yn arbennig, i ystyried amrywiaeth ehangach o yrfaoedd.

Y siaradwr nesaf oedd Maxine Barrett, Cyfarwyddwr Gweithrediadau HOS Hire, sef cwmni llogi offer adeiladu sy'n cynnig amrywiaeth o estyllod a pheiriannau anfecanyddol i'w llogi a'u gwerthu. Mae Maxine yn gweithio i'r cwmni ers 2007, er nad oedd ganddi unrhyw brofiad o'r byd adeiladu cynt. Roedd wedi bod yn chwilio am gyfleoedd newydd a chafodd ei hannog gan fentor cefnogol i fentro i faes a gysylltir fel arfer â dynion, gan ddibynnu ar ei sgiliau trosglwyddadwy a'i moeseg gwaith gref. Roedd Maxine yn rheoli pob agwedd ar y busnes ac yn arwain tîm a oedd yn cynnwys dynion yn bennaf. Roedd ganddi brofiad uniongyrchol o'r anawsterau a'r cyfleoedd a allai wynebu menywod yn y diwydiant adeiladu. Llwyddodd i ennill parch ei chydweithwyr drwy ei brwdfrydedd a'i pharodrwydd i ddysgu. Roedd Maxine yn awyddus i annog menywod eraill i lenwi swyddi ac i ddatblygu gyrfa yn y byd adeiladu ac roedd yn credu bod y ffaith bod rhai o'r dynion a welodd ar y safle yn disgwyl iddi fethu wedi rhoi cymhelliant cryf iddi lwyddo. Bydd Maxine yn hyrwyddo ac yn mentora pobl ifanc ac roedd yn hyderus y byddai rhagor o fenywod yn ymuno â'r diwydiant adeiladu i gynyddu amrywiaeth ac i gynnig syniadau a safbwyntiau newydd, rhywbeth sy'n hanfodol os yw'r diwydiant am ffynnu.

Y cyflwynydd olaf oedd Laura Toscano, Arweinydd Adnoddau Dynol yn GE Aviation. Ymunodd Laura â General Electrics yn 2015, ar ôl gweithio ym maes Adnoddau Dynol am ddeunaw mlynedd mewn gwahanol sectorau. Mae GE yn sefydliad enfawr gyda dros 330,000 o weithwyr drwy'r byd i gyd, a 22,000 yn y DU yn unig.

Mae Prif Swyddog Gweithredol y Grŵp wedi addo'n gyhoeddus i bontio bwlch rhwng y rhywiau o safbwynt STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg), a hynny drwy geisio cyflogi 20,000 o fenywod mewn swyddi STEM a sicrhau bod hanner y rhai sy'n cael eu derbyn ar raglenni prentisiaeth yn fenywod erbyn 2020. Mae'r cwmni'n cymryd yr addewid o ddifrif ac mae Cyngor Ymgynghorol Technoleg wedi'i sefydlu i fynd i'r afael â'r bwlch presennol mewn pedair agwedd ar sgiliau, sef caffael a chadw sgiliau, arweinyddiaeth a ffurf. Roedd GE wedi llwyddo i ddenu pobl dalentog o bob rhan o'r byd i weithio i'r busnes, ond roedd yn anodd cadw staff, felly mae angen creu diwylliant gwell lle gall menywod ffynnu fel gweithwyr. O ran arweinyddiaeth, roedd yn rhaid mynd i'r afael â rhai o'r arferion diwylliannol a oedd wedi ymwreiddio yn y sefydliad ac mae sesiwn hyfforddi ar 'arwain yn ddiduedd' yn cael ei chyflwyno i bob aelod o staff i herio ymddygiad o fewn y cwmni. Mae GE yn annog ei staff i rwydweithio ac mae gan y cwmni rwydwaith menywod byd-eang.

Roedd yr amgylchedd yn wahanol iawn i amgylchedd gwaith blaenorol Laura, ond roedd yn awyddus i wneud newidiadau er gwell. Roedd y ffatri'n cyflogi 1,400 o bobl, ac ychydig iawn o fenywod oedd yn y gweithle. Er bod cydbwysedd rhwng y rhywiau ymhlith yr arweinwyr, roedd diwylliant cynhenid ymysg y gweithwyr yn y ffatri ac roedd yr arweinwyr benywaidd wedi mabwysiadu agweddau'r dynion er mwyn ffynnu a goroesi. Roedd hyfforddiant yn awr ar y gweill i gyflwyno dulliau amrywiol o arwain. Roedd y cwmni hefyd yn awyddus i ddenu staff cychwynnol ac roedd yn cynnig lle i 30 o brentisiaid bob blwyddyn. Roedd 100 o lysgenhadon STEM yn weithgar yn y gymuned ac yn ymweld ag ysgolion ac roedd GE rhan o'r fenter hon. Drwy Gyrfa Cymru, roedd ffatri Laura wedi'i gefeillio ag ysgol uwchradd y tu allan i ddalgylch y ffatri er mwyn hybu

amrywiaeth. Bydd staff hefyd yn cymryd rhan mewn rhaglen fentora mathemateg mewn ysgolion, gan dreulio rhyw 1,300 o oriau i helpu myfyrwyr yr ardal i wella'u canlyniadau TGAU Mathemateg.

Yna, cafwyd sesiwn holi ac ateb, pan dderbyniwyd y gall hysbysebion swyddi ddangos rhagfarn tuag at ryw benodol yn aml.  Derbyniwyd bod angen i unrhyw wybodaeth a gyhoeddir i hyrwyddo cwmni neu swydd fod yn gynhwysol a bod angen rhoi sylw i'r iaith cymaint â'r delweddau. Yn aml, mae'r rhagfarn yn anymwybodol ac mae'n syniad da defnyddio rhaglenni pwrpasol sy'n sicrhau bod pob hysbyseb yn gwbl gynhwysol ac nad yw'n anelu at unrhyw ryw benodol.  Ar ben hynny, nodwyd ei bod yn hanfodol ennyn diddordeb plant oedran cynradd mewn amrywiaeth eang o yrfaoedd. Fel rhan o fenter 'Syniadau Mawr' Llywodraeth Cymru, roedd 300 o bobl fusnes wedi ymweld ag ysgolion i drafod eu busnesau ac roedd hyn wedi bod yn werthfawr iawn yn y cyswllt hwn. Cytunodd llawer o'r cynrychiolwyr y gellid efelychu'r fenter hon yn eu hardaloedd nhw, er mwyn dangos i bobl ifanc nad oedd yn rhaid i lwybr gyrfa fod yn rhyw benodol.

## 6. Adroddiadau o'r gweithdai

6.01. **Gweithdy A:** *"*Cefnogi busnesau i helpu menywod i gyflawni a ffynnu"

Hwylusydd: Gemma Littlejohns, Cyd-gyflogwr Chwarae Teg
Rapporteur: Samantha Sacramento (Gibraltar)

Yn y gweithdy hwn, cyflwynwyd Cenedl Hyblyg 2, sef prosiect a ariennir drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop a Llywodraeth Cymru ac a gaiff ei roi ar waith gan Chwarae Teg. Mae'r prosiect yn cynnwys dwy raglen - rhaglen datblygu gyrfa i fenywod a rhaglen fusnes sy'n gweithio gyda mentrau bach a chanolig. Cynlluniwyd y rhaglen i fenywod i helpu cyfranogwyr i feithrin y sgiliau, yr hyder a'r wybodaeth sydd eu hangen i ddatblygu eu gyrfa'n effeithiol. Mae Chwarae Teg yn helpu cyflogwyr i adolygu eu harferion gweithio ac i ystyried sut y gellir eu haddasu i ganiatáu i fenywod ffynnu.



Trafododd y cyfranogwyr y rhwystrau ehangach sy'n atal menywod rhag dechrau gweithio yn y sectorau llai traddodiadol, gan gynnwys adeiladu. Yn ystod y drafodaeth, canolbwyntiwyd ar addysg blynyddoedd cynnar a rôl rhieni, gan nodi bod canfyddiadau plant yn ffurfio pan fyddant yn bedair neu bump oed.  Tynnodd Gemma Littlejohns sylw at *Sylfeini teg* - elfen allweddol o brosiect Cenedl Hyblyg 1 a oedd yn gweithio gyda chymunedau lleol ac ysgolion cynradd. Tanlinellodd Gemma, fodd bynnag, nad yw ymdrechion o'r fath yn effeithiol oni bai eu bod yn cael eu gweithredu dros gyfnod hir.

## 6.1 **Gweithdy B: "Gwylio'r bwlch:  menywod yn y diwydiant adeiladu"**

Dan arweiniad Donna Griffiths, Rheolwr Partneriaeth Cymru, CITB,  a phrentisiaid a menywod eraill sy'n gweithio yn y sector.


Hwylusydd: Suzy Davies AC (Cymru)
Rapporteur: Y Dirprwy Susie Pinel (Jersey)

Dangosodd y gweithdy hwn rai o'r datblygiadau arloesol sy'n chwarae rhan gynyddol bwysig ym myd adeiladu a pheirianneg sifil – *gan herio'r rhagdybiaethau sydd gan lawer o fenywod am y diwydiannau hyn* – fel Modelu Gwybodaeth Adeiladu (BIM). Cafwyd cyfraniadau gan amrywiaeth o fenywod sy'n gweithio mewn gwahanol feysydd a buont yn sôn am y rhesymau dros ddilyn llwybr gyrfa penodol, ac am eu profiadau dilynol.  Roedd gan bawb stori gadarnhaol i'w hadrodd ac ni chlywyd am neb a geisiodd wahaniaethu yn eu herbyn, er eu bod mewn lleiafrif.  Clywodd y cynrychiolwyr hefyd am fentrau yn y diwydiant adeiladu i geisio mynd i'r afael â'r ffaith bod prinder menywod yn y diwydiant, ee  buddsoddi mewn rhaglenni ymgysylltu ag ysgolion a'r gymuned; a phwysigrwydd dylanwadu ar ferched oedran cynradd pan fydd agweddau'n dechrau ffurfio. Soniodd nifer o gyfranwyr am y bwlch sgiliau sy'n golygu bod swyddi ar gael mewn diwydiannau penodol ond dim digon o weithwyr medrus i'w llenwi. Roedd yn gynyddol bwysig, felly, annog menywod i gyfranogi ym mhob sector economaidd.

## 6.03. **Gweithdy rhyngweithiol: *"Adeiladu pontydd"***

Hwyluswyd gan Lysgennad menywod yn y diwydiant adeiladu, CITB Cymru a ICE Cymru.

Cymerodd y cynrychiolwyr ran mewn sesiwn ymarferol, rhyngweithiol gan weithio gyda menywod o'r diwydiant adeiladu i adeiladu fersiwn fach o Ail Bont Afon Hafren. Rhannwyd pawb yn ddau grŵp cyn dangos faint o her beirianyddol yw codi pont. Cydweithiodd y grwpiau i adeiladu pont geblau 12m o hyd. Ar ôl adeiladu'r bont, gofynnwyd iddynt gerdded ar ei thraws cyn ei datgymalu. Roedd y gweithgaredd yn gyfle i'r cynrychiolwyr glywed mwy am rolau a phrofiadau peirianwyr benywaidd sy'n gweithio mewn gwahanol swyddi yn y diwydiant adeiladu.



## 7. Diolchiadau

Roedd BIMR CWP yn ddiolchgar i CPA Cymru am gynllunio, trefnu a chyflwyno pedwaredd gynhadledd ragorol BIMR CWP.  Roedd yn ddiolchgar hefyd i'r siaradwyr a roddodd o'u hamser i ddod i’r Gynhadledd; drwy eu cyflwyniadau amrywiol a diddorol, llwyddwyd i ychwanegu at wybodaeth a dealltwriaeth pawb a oedd yn bresennol.




## 8. Cyllid

Cyfrannodd Cronfeydd Cryfhau Rhanbarthau BIMR CWP £12,500 at gost y gynhadledd, gan gynnwys llety a theithio. CAP Cymru dalodd weddill y costau.